Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Isafswm safonau ar gyfer canllaw atgyfeiriadau

**Medi 2022**

# Cynnwy

Cyflwyniad ........................................................................................................ 3
Pob atgyfeiriad cwyn........................................................................................... 4
Pob atgyfeiriad ymddygiad.................................................................................. 4
Camddefnyddio swydd at ddiben rhywiol (APSP) ........................................................ 5
Digwyddiadau traffig ffyrdd ................................................................................. 6
Cam-drin domestig ............................................................................................. 7
Defnydd o rym .................................................................................................. 8
Unigolyn ar goll .................................................................................................. 9
Digwyddiad tra yn nalfa’r heddlu neu ar ôl hynny ..................................................... 10

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon i fod i gael ei ddefnyddio fel canllaw wrth wneud atgyfeiriad i'r SAYH. Rydym yn gofyn wrth wneud atgyfeiriad i chi ymgynghori â'r ddogfen hon, penderfynu pa gategori sy'n gweddu orau i natur yr atgyfeiriad a'ch bod yn darparu manylion a dogfennau perthnasol, fel yr amlinellir isod, fel isafswm yng nghyflwyniad yr atgyfeiriad. Mae angen y wybodaeth hon i asesu cymhlethdod yr achos a'r lefel briodol o ymchwiliad sydd ei angen.

Mae'n rhaid i atgyfeiriad gorfodol gael ei wneud heb oedi ac mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod ar ôl y diwrnod y daeth yn eglur gyntaf ei fod yn fater y mae'n rhaid ei atgyfeirio. Felly, **peidiwch ag oedi i gyflwyno atgyfeiriad os nad yw'r holl fanylion neu ddogfennau a restrir ar gael ar y pryd** gan y dylai'r angen i ddarparu gwybodaeth gael ei gydbwyso yn erbyn amseroldeb gwneud yr atgyfeiriad. Yn hytrach, sylwch ar unrhyw wybodaeth goll a rhowch wybod i ni ar adeg atgyfeirio os yw rhagor o wybodaeth yn debygol o ddod ar gael yn fuan wedyn. Rydym yn gwerthfawrogi na fydd yr holl ddogfennau a restrir ar gael, nac yn gymwys, i bob achos.

Nodwch nad yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr ac fe bwriedir fel canllaw ar gyfer isafswm safonau i osgoi oediadau mewn prosesu atgyfeiriadau. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei ddarparu gyda'r atgyfeiriad rydym yn debygol o ddod yn ôl atoch i ofyn amdani. Os oes gennych unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth y teimlwch sy'n berthnasol nad oes manylion arnynt isod, darparwch hyn gyda chyflwyno'r atgyfeiriad.

# Pob atgyfeiriad cwyn

Rhif cyfeirnod cwyn e.e. C/CO (dylai'r gŵyn gael ei chofnodi cyn atgyfeirio).

Ffurflen gŵyn a/neu ddogfen(nau) gwreiddiol– gan gynnwys unrhyw ffurflenni cwyno SAYH ar-lein neu unrhyw ohebiaeth am gŵyn a anfonir at SAYH (nid oes gan y SAYH fynediad awtomatig at gwynion ar-lein a wneir trwy ein gwefan felly cynhwyswch hyn os yw'n gymwys).

Pa honiadau/penawdau cwyn sydd wedi cael eu cofnodi o'r gŵyn wreiddiol?

A gafodd y gŵyn hon, neu gŵyn debyg, ei wneud o'r blaen ac a ymdriniwyd â hi? Os felly, darparwch fanylion.

Os yw'r gŵyn wedi cael ei wneud ar ran rhywun arall rhowch gydsyniad ysgrifenedig yr unigolyn maen nhw'n gweithredu ar ei ran/rhan (os dros 16 oed).

# Pob atgyfeiriad ymddygiad

Rhif cyfeirnod cwyn e.e. C/CO (dylai'r gŵyn gael ei chofnodi cyn atgyfeirio).

Asesiad dwyster (os wedi'i gwblhau).

Cynhaliwch ddogfen gofnodi/asesu – darparwch fanylion yr ymddygiad honedig penodol gan gynnwys pa safon(au) o ymddygiad proffesiynol yr ystyrir i fod wedi cael ei dorri/eu torri yn erbyn pob swyddog unigol.

Isod mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer materion penodol i achosion fydd yn cynnwys DSI, materion cwynion neu ymddygiad. Dylai'r rhain gael eu hystyried yn ogystal â'r gofynion ar gyfer cwynion ac ymddygiad uchod.

# Cam-drin pŵer at ddiben rhywiol (APSP)

### Manylion yn ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

Manylion y dioddefwr ac unrhyw fregusrwydd.

Manylion ynglŷn â'r graddau, ac unrhyw dystiolaeth, o gyfathrebu swyddog â'r dioddefwr.

Unrhyw wybodaeth monitro busnes cyfreithlon berthnasol - gan gynnwys gwybodaeth lleoliad GPS (os yn berthnasol).

Oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddog wedi dod i gyswllt â dioddefwr at ddiben plismona cyfreithiol?

Oedd y cysylltiad trwy waith a/neu ddyfeisiau personol?

Ydy'r swyddog wedi defnyddio systemau plismona i chwilio am y dioddefwr neu unrhyw un o'i berthnasau/ffrindiau pan nad oes pwrpas plismona?

Oes unrhyw hanes ymddygiad neu gwynion perthnasol ar gyfer y swyddog?

### Dogfennaeth Ofynnol:

Tystiolaeth o gyfathrebu rhwng y swyddog a'r dioddefwr.

Adroddiad(au) gan y dioddefwr neu dyst/hysbysydd (os ceir cyn MOI).

# Digwyddiadau traffig

## Manylion yn ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

Amseriadau dilyn - pryd ddechreuodd hyn? Pryd ddaeth e i ben? Hyd yn fras?

Math o gerbyd heddlu – a oedd wedi'i farcio neu heb ei farcio?

Oedd y swyddog dilyn wedi'i hyfforddi?

Manylion unrhyw gyswllt â'r ystafell reoli - a geisiwyd awdurdodaeth?
Asesiadau risg wedi eu cynnal?

Oedd cyfarpar argyfwng cerbydau'r heddlu wedi'i ysgogi? Os felly,

pryd? A gafodd yr ymlid ei ohirio cyn y gwrthdrawiad/anaf?

## Dogfennaeth Ofynnol:

Cofnod(ion) Digwyddiad:

Datganiadau swyddog/tyst ac unrhyw adroddiadau PIP (os cafwyd nhw

cyn MOI). Adroddiad Goruchwyliwr Adroddiad Gwrthdaro/ Plismona Ffordd.

Ffilm camera dashfwrdd yn y car a/neu Fideo a Wisgir ar y Corff (os yw'n dangos

y digwyddiad/dilyn). Sain Tonnau Radio.

# Cam-drin

## Manylion sy'n ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

### Dyddiadau a manylion unrhyw gysylltiad blaenorol â’r heddlu cysylltiedig â domestig:

- Beth oedd canlyniad y digwyddiadau hyn?
- A gafodd unrhyw gyhuddiadau troseddol eu dwyn yn erbyn y cyflawnwr?
- Unrhyw gyfranogaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron?

### Un dan amheuaeth:

- Oeddent yn destun unrhyw amodau mechnïaeth ar adeg y digwyddiad?
- Oes ganddynt unrhyw farcwyr rhybudd?
- Oedd yr heddlu eu heisiau ar adeg y digwyddiad? Darparwch fanylion.

### Dioddefwr:

- Pa ddiogelu, os o gwbl oedd mewn grym ar adeg y dighwyddiad? Oedd DASH/asesiad risg wedi'i gwblhau? Os felly, darparwch fanylion.
- Oedd unrhyw orchmynion neu amodau mewn grym i ddiogelu'r dioddefwr (e.e. gorchmynion
  peidio ag ymosod, rhybuddion aflonyddu)?
- Oedd unrhyw atgyfeiriadau MASH/MARAC o faterion blaenorol ar adeg y digwyddiad?

## Dogfennaeth Ofynnol:

Adroddiadau Trosedd - unrhyw adroddiadau achosion domestig byw neu anghyflawn yn ymwneud â'r dioddefwr a'r un dan amheuaeth.

Datganiadau Swyddog (os y cafwyd cyn

MOI). Asesiadau Risg.

Cofnod Digwyddiad.

Fideo a Wisgir r y Corff (presenoldeb swyddogion).

# Defnydd o

### Manylion yn ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

Manylion a graddau'r anaf a ddioddefwyd.

Unrhyw hanes cwyn/ymddygiad perthnasol o'r swyddog(ion) yn defnyddio grym.

Manylion y grym a ddefnyddiwyd (er enghraifft cyffion dwylo, atalwyr, grym corfforol, Taser, PAVA).

Ar gyfer atgyfeiriadau ynghylch Taser - darparwch fanylion nifer a hyd y gollyngiadau.

### Dogfennaeth Ofynnol:

Cofnod(ion)

Digwyddiad.

Ffurfiau Defnydd o

Rym

Fideo a Wisgir ar y Corff/CCTV (os yw'n dangos y digwyddiad neu unrhyw beth perthnasol). Datganiadau gan swyddogion/tystion ac unrhyw adroddiadau PIP (os y cafwyd cyn MOI). Ar gyfer atgyfeiriadau brathiadau cŵn - darparwch adroddiad am frathiad y ci.

Ar gyfer atgyfeiriadau perthynol i Taser - darparwch adolygiad y goruchwyliwr.

# Unigolyn ar

## Manylion yn ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

Amserlen digwyddiadau:

### Adroddiadau cychwynnol:

- Manylion o bryd y cawsant eu hadrodd i'r heddlu gyntaf a pham.
- Pa wybodaeth risg gafodd ei ddarparu – cynhwyswch gymaint o fanylion â phosibl gan gynnwys oedran yr unigolyn ar goll, neu unrhyw wendidau corfforol neu feddyliol, unrhyw
gamddefnydd cyffuriau/alcohol, unrhyw fygythiadau amlwg, ydy'r ymddygiad allan o gymeriad, unrhyw fygythiadau hunan-niweidio neu hunanladdiad blaenorol neu hanesyddol, pan gafodd ei weld/gweld ddiwethaf

### Gweithredu'r heddlu:

- Gweithredoedd cychwynnol.
- Pryd gafodd ei ystyried/hystyried ar goll gyntaf?
- Beth oedd yr asesiad risg cychwynnol a'r sail resymegol?
- A newidiodd yr asesiad risg? Os felly pryd a pham?
- Pa gamau a gymerwyd ac wrth gynnwys manylion o chwiliadau, gwiriadau ffôn ac ariannol, CCTV ac ymholiadau eraill.
- Os cafodd ei raddio'n risg uchel, pryd ymgysylltwyd â POLSA?

Darparwch fanylion am bryd a ble cafodd yr unigolyn ar goll ei leoli? Oedd

y lleoliad hwn wedi cael ei chwilio o'r blaen?

Ydy'r chwiliad unigolyn coll wedi cynnwys llu arall? Os felly, ydych chi wedi rhoi gwybod i'r llu arall am yr atgyfeiriad hwn?

## Dogfennaeth Ofynnol:

Adroddiad Person Coll.

Cofnod(ion)

Digwyddiad.

# Digwyddiad tra yn nalfa'r heddlu neu

## Manylion yn ofynnol yng nghrynodeb ffurflen 7.1:

Gwybodaeth asesiad risg ar fynd i mewn a chyn

rhyddhau. Manylion am unrhyw nodwyr rhybudd

perthnasol.

Lefelau arsylwi, gan gynnwys sail resymegol gychwynnol ac

unrhyw newidiadau. A gafodd unrhyw chwiliadau eu cynnal ar

yr unigolyn?

A welsant yr HCP yn ystod eu cadw? Os felly pryd a pham? Manylion

am unrhyw dderbyniadau/asesiadau ysbyty.

Os digwyddodd y digwyddiad ar ôl rhyddhau o'r ddalfa - pryd gawsant eu rhyddau o'r ddalfa? Pryd ddigwyddodd y DSI? Oedd unrhyw ddiogelu tra yn y ddalfa (hynny yw unrhyw ddogfennaeth gymorth neu atgyfeiriadau ymlaen?) A gawsant eu cymryd gan swyddogion?

## Dogfennaeth Ofynnol:

Cofnod dalfa cyfan (gan gynnwys asesiadau risg).

Ffurflen/adroddiad digwyddiad andwyol yn y Ddalfa.

CCTV y ddalfa/Fideo a Wisgir ar y Corff (os yw'n dangos bod y digwyddiad/yn berthnasol).

Cyhoeddwyd Mis Mawrth 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg